



*Cerflun pren o Bob Owen.* Llun: Hywel Hughes



*Owain Tudur, mab Bob Owen, yn tynnu llun y cerflun.* Llun: Hywel Hughes

# Diwrnod y Dathlu ym Mhortmeirion

(*Parhad o dudalen flaen*)

*stirring deed and struggles. It would be hard to match in any history the long and splendid struggle of his own ancestor.'*

Doedd o erioed wedi darllen dim byd tebyg o'r blaen, ac roedd yn cynnwys lluniau lliw i'w rhyfeddu. Y llun a adawodd ei ôl yn drwm iawn arno ac a 'dynnai waed i'm dannedd' oedd yr un yn dangos lladd Llywelyn a'r stori ynglŷn â'r llofruddiaeth. Yna, ar ddiwedd y bennod am Glyndŵr, mae Owen Rhoscomyl yn sôn am y bobl hynny sy'n ceisio delweddu am Glyndŵr, ac am y gorau yn ceisio cael hyd i fangre ei fedd. Cloir y bennod gan Rhoscomyl:


*'They are all wrong. His grave is known – well known. It is beside no church, neither under the shadow of any ancient yew. It is in a spot safer and more sacred still. Rain does not fall on it, hail nor sleet chill no sere sod above it. It is forever green with the green of eternal spring… Time shall not touch it; decay shall not dishonour it; for that grave is in the heart of every true Cymro. There, for ever, from generation unto generation, grey Owen's heart lies dreaming on, dreaming on, safe for ever and for ever.'*

Dyma oedd ei gyflwyniad cyntaf i Hanes Cymru, a'r gyfrol hon, yn ysgol fach Aberarth, gan awdur nad oedd wedi clywed amdano o'r blaen, oedd y sbardun.

Ac meddai, *'Ac o safbwynt unrhyw fath o anian casglwr sydd ynof, dyma'r gyfrol bwysicaf sydd gen i yn y tŷ, ac mi fydda i'n troi ati o bryd i'w gilydd a'i darllen hi drwyddi, a daw pob math o atgofion yn ôl o'r cyfnod'.*

Ymhen blynyddoedd lawer pan oedd o yn ymchwilio i Hanes Cymru yn Oes Fictoria, fe ddaeth ar draws Owen Rhoscomyl eto. Roedd ganddo ddiddordeb yn adfywyiad y ddrama Gymraeg yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, a dyma ddarganfod mai'r gŵr bonheddig yma oedd llaw dde, fel petai, Arglwydd Howard de Walton a ddaeth i gastell y Waun o gwmpas 1910, gyda'i arian, a chreu mudiad drama yng Nghymru; hynny yw, i gomisiynu dramâu Cymraeg a Saesneg a fyddai yn creu diddordebau newydd yn y Cymry, ac roedd yn cynnig gwobrau o £100 – a oedd yn symiau mawr o gwmpas 1910-12. Allan o'r gwobrau hyn daeth repetoire newydd o ddramau gan awduron megis J. O. Francis, D. T. Davies, R. G. Berry a Howard de Walton ei hun. Creodd fath o gwmni cenedlaethol, a huriodd y Theatr Newydd yng Nghaerdydd am wythnos gron ym mis Mai 1914. Doedd yna ddim byd tebyg erioed wedi bod o'r blaen na chwedyn. PR y fenter rhyfedd hon oedd neb llai na Rhoscomyl. Roedd ef yn y busnes o greu delweddau newydd y câi y Cymry eu gweld eu hunain ynddyn nhw a'u gweld eu hunain yn dipyn mwy hydreus na chynt. Prydeiniwr rhonc oedd Rhoscomyl ac Imperialydd, ond roedd yn imperialydd o Gymro a'i ddadl fawr ef oedd nad oedd y Cymry erioed wedi sylweddoli eu grym, a chymaint oedd eu cyfraniad nhw. Bwriad Howard de Walton a Rhoscomyl oedd creu theatr symudol a Rhoscomyl oedd wrth y llyw. Aethpwyd ar daith ar hyd arfordir Cymru, ac i lawr ar hyd y ffin, a gorffen yn

(*Parhad ar dudalen 15*)



*Athro Hywel Teifi Edwards yn ei morio hi.*



*Y Golygydd a Dyfed Evans.* Llun: Hywel Hughes